

Image not found or type unknown

**Canllawiau i fentoriaid i  
gefnogi rheolwyr y  
blynyddoedd cynnar a  
gofal plant newydd i  
gwblhau fframwaith  
sefydlu Cymru Gyfan  
(AWIF) ar gyfer  
rheolwyr y**

# blynyddoedd cynnar a gofal plant

Canllawiau i fentoriaid i gefnogi rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant newydd i gwblhau fframwaith sefydlu Cymru Gyfan (AWIF)

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 February 2025

Diweddariad olaf: 14 April 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframweithiau-sefydlu/fframwaith-sefydlu-rheolwyr-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant/guidance-for-mentors-to-support-new-early-years-and-childcare-managers-complete-the-all-wales-induction-framework-awif-for-early-years-and-childcare-ma> am y fersiwn diweddaraf.

## Pam mae sefydlu yn bwysig?

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus sy'n uchel ei barch fel proffesiwn a gyrfa o ddewis, ac sy'n cael ei gydnabod am y rôl hanfodol y mae'r sector yn ei chwarae wrth gefnogi datblygiad ein plant.

Fel rhan o gymorth hyfforddi ehangach, mae [Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru](#) yn disgwyl i bob lleoliad blynyddoedd cynnar ddarparu cyfnod sefydlu i weithwyr newydd. Dylai'r cyfnod sefydlu helpu gweithwyr i ddeall arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r gwerthoedd sydd eu hangen i weithio yn y blynyddoedd cynnar.

O dan y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed](#) rhaid i weithwyr gwblhau, neu fod yn gweithio tuag at, hyfforddiant sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys Fframwaith sefydlu Cymru gyfan.

Mae rhaglen sefydlu drylwyr a ystyriwyd yn ofalus yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Mae cyfnod sefydlu yn sicrhau bod staff newydd yn deall pwysigrwydd arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r gwerthoedd sy'n cefnogi gweithio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae hefyd yn eu helpu i ymgartrefu a dod yn fwy effeithiol yn eu rôl.

Mae cyfnod sefydlu yn sicrhau bod staff yn gwybod beth yw eu rolau, yn ogystal â chyfyngiadau'r rôl. Gall gynyddu ymrwymiad gweithwyr a boddhad swydd a chael effaith gadarnhaol ar leihau trosiant staff.

# **Beth yw Fframwaith sefydlu Cymru gyfan (AWIF) ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant?**

Mae Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn set o safonau a gymerwyd o ddeilliannau dysgu gorfodol Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli a chymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'n nodi'r wybodaeth a'r arferion y dylai rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant newydd eu dangos dros amser.

Mae dwy ran i'r AWIF:

## **Rhan A- safonau sefydlu ar sail gwybodaeth**

Mae'r safonau sefydlu gwybodaeth yn cwmpasu'r holl gyfrifoldebau am arwain a rheoli gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae hyn yn cynnwys:

- arwain arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth
- deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol.

## **Rhan B- safonau sefydlu ar sail cymhwysedd**

Mae'r safonau sefydlu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn cwmpasu ystod eang o feysydd fel arfer proffesiynol, ac arwain a rheoli:

- arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn

- perfformiad tîm effeithiol
- ansawdd y gweithle neu'r lleoliad
- arfer sy'n hybu diogelu plant
- iechyd, diogelwch a diogeledd.

## **Pwy ddylai gwblhau'r AWIF?**

**Dylai pob rheolwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n newydd yn eu swydd gwblhau'r AWIF fel cyfnod sefydlu cyffredinol i'w rôl.**

Rydym yn argymhell bod pob rheolwr yn cwblhau'r AWIF o fewn 12 mis i ddechrau rôl newydd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle iddynt roi eu dysgu ar waith a diweddarau eu gwybodaeth am fframweithiau deddfwriaethol, arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a meysydd arbenigol.

Mae rheolwyr profiadol neu gymwys yn debygol o fod â rhywfaint o dystiolaeth eisoes o wybodaeth ac ymarfer trwy gymwysterau blaenorol a gwblhawyd neu gyflogaeth flaenorol, ond efallai y bydd angen mwy o gymorth ar reolwyr llai profiadol.

### **Gofynion ar gyfer arweinydd / rheolwr / person mewn rheolaeth Dechrau'n Deg**

Ar gyfer staff mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gael profiad o weithio gyda phlant ifanc a meddu ar gymhwyster derbyniol fel yr amlinellir yn ein fframwaith cymhwyster ar gyfer [Arweinydd / rheolwr / person mewn rheolaeth Dechrau'n Deg](#)

Rhaid i'r bobl ganlynol gwblhau'r AWIF:

1. Unigolion sydd â **Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch) Cymru a Gogledd Iwerddon**. Rhaid i'r unigolion hyn gwblhau rhan A a rhan B o'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.
1. Unigolion sydd â **gradd dderbyniol a restrir ar y fframwaith cymhwyster**. Dim ond Rhan B o'r AWIF y mae angen i'r unigolion hyn ei chwblhau. Mae prifysgolion wedi diweddarau eu modiwlau i fodloni'r meini prawf Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4 sydd eu hangen ar gyfer rôl Rheolwr Dechrau'n Deg.

## **Rôl y rheolwr sy'n cwblhau'r AWIF**

Y rheolwr

Dylai'r rheolwr sy'n cwblhau'r AWIF lenwi'r rhan A, rhan B neu'r ddwy, a defnyddio logiau cynnydd i ddogfennu eu tystiolaeth.

Maent yn gyfrifol am gynnwys eu tystiolaeth yn y logiau hyn i ddangos eu dealltwriaeth a'u sgiliau, yn unol â safonau AWIF.

Yn y logiau cynnydd, byddant yn nodi'n fanwl sut y maent wedi bodloni pob safon, gan ddefnyddio tystiolaeth megis trafodaethau, cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd, a thystysgrifau o gymwysterau blaenorol.

Er enghraifft, gall rheolwyr sydd â **Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch)** fapio canlyniadau dysgu perthnasol o'r cymhwyster hwn i ddangos eu gwybodaeth a'u profiad.

Rydym wedi creu dogfen fapio y gallwch ei defnyddio: [Cysylltu'r AWIF â Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant \(Ymarfer Uwch\)](#).

Rydym hefyd wedi creu [canllaw i gefnogi rheolwyr i ganfod a chasglu dystiolaeth](#) i'w ddefnyddio gyda'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio ein [gweithlyfr gwybodaeth AWIF Rhan A](#) i lenwi unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth. Gallant gwblhau amrywiaeth o weithgareddau i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol, a gallant gyrchu adnoddau a chysylltiadau ar gyfer astudio ymhellach.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio'r [canllaw cymhwysedd rhan B](#) i roi enghreifftiau o sut y gallant gasglu darnau ymarferol o dystiolaeth, i ddangos eu sgiliau rheoli yn eu rôl.

## Cymeradwyo'r safonau

Unwaith y bydd y rheolwr wedi cynnwys ei dystiolaeth yn y cofnodion cynnydd, bydd angen mentor arno i adolygu a chadarnhau ei fod wedi bodloni pob safon.

Gall y mentor ychwanegu sylwadau byr yn y blwch a ddarparwyd, gan esbonio pam eu bod yn credu bod y rheolwr wedi cyrraedd y safon honno. Dylai'r rheolwr a'r mentor lofnodi a dyddio pob cofnod i gwblhau'r broses gymeradwyo.

Rhaid i'r mentor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r safonau:

- meddu ar wybodaeth ymarferol o'r safonau sefydlu y maent yn eu hadolygu
- bod yn fedrus yn y maes y maent yn ei gadarnhau

- bod yn gyfarwydd ag arfer y rheolwr

Gall y mentor fod yn amrywiaeth o bobl, fel yr Unigolyn Cyfrifol, arweinydd datblygu ymarfer neu reolwr arall sy'n goruchwyllo gwaith y rheolwr.

## **Rôl y mentor**

Y mentor

Mae'r mentor yn cefnogi'r rheolwr ac yn eu harwain trwy ran A a B o'u AWIF, ac yn adolygu ac yn cadarnhau eu bod wedi bodloni'r safonau.

Cesglir tystiolaeth i gwblhau'r logiau cynnydd o ystod o ddulliau asesu. Gellir defnyddio hwn i farnu dealltwriaeth y rheolwr o'i rôl, ei gyfrifoldebau a'i ymarfer.

Dyma'r mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio i gefnogi'r AWIF:

- cwblhau'r llyfrau gwaith
- cwestiynau dilynol
- holi ysgrifenedig neu lafar
- goruchwyliaeth
- cyfarfodydd tîm
- aseiniadau
- astudiaethau achos gyda chwestiynau
- cyflwyniadau
- profion
- arsylwi ymarfer yn uniongyrchol
- adborth gan eraill – er enghraifft, unigolion, teuluoedd, gofalwyr neu weithwyr eraill
- adroddiadau hunan-asesu neu fyfyriol

- cwblhau prawf
- cwblhau gweithdrefnau sefydlu sefydliadol
- cyfraniadau gan ddarparwyr dysgu
- myfyrio ar bresenoldeb hyfforddiant tystiolaeth o ddysgu neu gymwysterau achrededig.

Mae gennym adnoddau i helpu mentoriaid i gefnogi eu rheolwyr:

- [Llyfr gwaith atebion enghreifftiol](#), sy'n cynnwys enghreifftiau o atebion rhan A o'r gweithgareddau a osodwyd yn y llyfrau gwaith.
- [Canllawiau i fentoriaid](#) sy'n cynnwys enghreifftiau o ba fath o dystiolaeth y gellir ei chasglu ac enghreifftiau ar gyfer rhan B o arsylwadau a chynnyrch gwaith mentor.

## Llofnodi'r dystysgrif gwblhau

Dylai'r rheolwr newydd a'r mentor lofnodi'r [dystysgrif cwblhau llwyddiannus](#). Mae angen i'r mentor ddangos ei fod wedi dilyn proses gref i fodloni'r safonau sefydlu. Weithiau bydd gan y rheolwr fentoriaid gwahanol drwy gydol y daith sefydlu.

## Cysylltu'r AWIF â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Mae'r AWIF yn cynnwys set o safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gall rheolwyr hefyd ei ddefnyddio fel offeryn i'w cefnogi os oes ganddynt gymwysterau hŷn, neu os oes angen uwchsgilio

neu ddiweddarau eu hymarfer.

## Adnoddau i helpu rheolwyr

Mae gan y ddau gymhwyster isod unedau sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr AWIF ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar:

- [Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth](#)
- [Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer](#)

Rydym wedi cymryd y canlyniadau dysgu gorfodol o bob uned ac wedi defnyddio'r rhain fel y safonau sefydlu.

Rydym wedi cario'r canlyniadau dysgu hyn yn y safonau sefydlu i mewn i'r logiau cynnydd, i'r adran lle mae'n dweud '*mae hyn yn golygu bod gennyf y ddealltwriaeth a'r gallu i...*' Nid ydym yn disgwyl i'r rheolwyr gael eu harwain drwy bob un o'r rhain yn fanwl, ond bydd yn rhoi syniad iddynt o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y mathau o wybodaeth ac ymddygiadau.

Gall rheolwyr hefyd ddefnyddio [gweithlyfr gwybodaeth](#) AWIF i'w helpu i lenwi'r bylchau yn eu gwybodaeth. Mae ganddo amrywiaeth o weithgareddau y gallant eu gwneud i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol.

Gallant hefyd ddefnyddio'r [llawlyfr sgiliau cymhwysedd](#) i roi enghreifftiau o sut y gallant gasglu darnau ymarferol o dystiolaeth i ddangos eu sgiliau rheoli yn eu rôl.

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano, [cysylltwch â ni](#).

## Cynnwys cysylltiedig

- [Logiau cynnydd rhan A](#)
- [Logiau cynnydd rhan B](#)
- [Rhan A: Llyfr gwaith gwybodaeth \(i'r rheolwr\)](#)
- [Rhan A: Llyfr gwaith gwybodaeth \(atebion sampl\) \(ar gyfer y mentor\)](#)
- [Rhan B: Arweinlyfr sgiliau cymhwysedd \(ar gyfer y rheolwr\)](#)
- [Rhan B: Arweinlyfr sgiliau cymhwysedd \(ar gyfer y mentor\)](#)
- [Amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer Fframwaith sefydlu Cymru gyfan \(FfSCG\) o ran y blynyddoedd cynnar a gofal plant](#)
- [Tystysgrif cwblhau llwyddiannus](#)
- [Cysylltu'r AWIF â Diploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant \(Ymarfer Uwch\)](#)